Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Tacsis a cherbydau hurio preifat: templed polisi CCTV i awdurdodau lleol

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r templed hwn wrth osod polisïau ynghylch defnyddio teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn tacsis a cherbydau hurio preifat.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 22 Mawrth 2021

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Sut i ddefnyddio'r templed hwn

Nodyn am CCTV gorfodol

Templed

Atodiad A: CCTV cerbydau trwyddedig manyleb dechnegol a gofynion systemau

Annecs B: amodau'r drwydded

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Sut i ddefnyddio'r templed hwn

Ar hyn o bryd, gwirfoddol yw'r defnydd o systemau CCTV mewn cerbydau trwyddedig. Ond gall awdurdodau lleol ddewis gwneud CCTV yn rhan angenrheidiol o'i amodau trwyddedu.

Er mwyn helpu i wella unffurfiaeth dull gweithredu ledled Cymru, rydym wedi creu templed y gall cynghorau ei ddefnyddio wrth greu polisi CCTV.

Gellir ailadrodd y geiriad yn llawn neu'n rhannol. Amlygwch y testun sydd ei angen arnoch, a'i gopïo a'i ludo i'ch dogfen.

Mae cyfleoedd i bersonoli yn cael eu nodi gan cromfachau sgwâr, er enghraifft: **[mewnosod enw'r cyngor]**.

# Nodyn am CCTV gorfodol

Cyn gorfodi'r defnydd o CCTV yn ei holl gerbydau trwyddedig, rhaid i'r awdurdod lleol lunio asesiad o'r effaith ar breifatrwydd data er mwyn:

- ystyried yr angen am CCTV
- sicrhau bod preifatrwydd wedi'i ystyried
- rhoi rheolaethau priodol ar waith i sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosibl a diogelu'r data.

Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi'r Effaith ar Breifatrwydd Data a, lle bo hynny'n berthnasol, ei rannu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Dylech hefyd ddarparu dolen i'ch polisi lawrlwytho.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Templed

## Cyflwyniad

Gall CCTV wella diogelwch gyrwyr a theithwyr mewn cerbydau trwyddedig drwy:

- Atal troseddau rhag cael eu cyflawni
- Lleihau ofn trosedd
- cynorthwyo'r heddlu/awdurdod lleol gydag ymchwiliadau
- cynorthwyo cwmnïau yswiriant i ymchwilio i ddamweiniau cerbydau modur

Mae'r gofynion hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod systemau CCTV sydd wedi'u gosod mewn tacsis trwyddedig neu gerbydau hurio preifat (PHVs) yn cael eu rheoli'n gyfrifol.

Yn y polisi hwn, rydym yn diffinio system CCTV fel:

- unrhyw ddyfais recordio electronig sy'n gallu dal a chadw delweddau gweledol a sain
- ynghlwm wrth y tu mewn i gerbyd
- gallu dal lluniau y tu mewn neu'r tu mewn a'r tu allan i gerbyd.

Bydd y polisi yn gymwys i unrhyw gerbyd sy'n cynnwys system CCTV fel y'i disgrifiwyd uchod.

Rhaid i systemau sy'n cofnodi delweddau mewnol ac allanol hefyd gydymffurfio **â'r polisi camerâu dangosfwrdd ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gofynion CCTV

Rhaid i unrhyw system CCTV, o leiaf, fodloni'r gofynion a nodir yn y fanyleb yn Atodiad A y canllaw hwn. Dim ond systemau CCTV sy'n bodloni'r gofynion hyn y gellir eu gosod mewn tacsis a cherbydau hurio preifat.

Rhaid cynhyrchu tystysgrif gosod (neu gopi) i'r awdurdod lleol, gan gadarnhau bod y system a osodwyd yn bodloni'r fanyleb ofynnol a nodir yn y polisi hwn.

Rhaid i'r gosodiad a gweithred y CCTV gydymffurfio â gofynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: **Yn y llun: Cod ymarfer diogelu data ar gyfer camerâu gwyliadwriaeth a gwybodaeth bersonol**

## Arwyddion

Rhaid gosod arwyddion y tu mewn i bob tacsi a cherbyd hurio preifat sydd â system CCTV i ddangos bod system CCTV ar waith.

Rhaid i'r arwyddion:

- gael eu harddangos ym mhob man mynediad i deithwyr, ee un ar bob drws
- bod yn weladwy i deithwyr cyn iddynt fynd i mewn i'r cerbyd
- achosi'r rhwystr lleiaf posibl o ran yr hyn y mae modd ei weld o'r tu mewn i'r cerbyd
- ei gwneud yn glir y gellir recordio sain

Dylid dweud hyn wrth deithwyr ar lafar hefyd.

Rhaid i yrwyr hysbysu teithwyr sydd â nam ar eu golwg ar lafar bod CCTV wedi'i osod yn y cerbyd.

Yn ogystal, dylai arwyddion mewnol ddangos yn glir:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- pwy yw'r rheolydd data
- sut y gall teithwyr gael gafael ar ddata’r CCTV

## Recordiadau sain

Caniateir i systemau CCTV cymeradwy gael eu defnyddio i recordio sain, ond ni ddylent allu recordio sain yn barhaus.

Dim ond drwy fotwm ‘panig’ a weithredir gan y gyrrwr a'r teithiwr y gellir recordio sain.

Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y dylai'r gyrrwr recordio sain:

- Pan fydd yn credu bod risg i'w ddiogelwch ei hun neu ddiogelwch yr unigolyn sy'n teithio yn ei gerbyd
- Pan fydd yn poeni am ymddygiad teithiwr (er enghraifft, mae rhywun yn ei gam-drin yn eiriol)
- Er mwyn diogelu ei fywoliaeth ee anghydfodau ynghylch talu, pryder ynghylch difrod posibl i'r cerbyd.

Lle gellir cyfiawnhau recordio sain, rhaid i arwyddion ei gwneud yn glir bod y system CCTV yn gallu recordio sain. Rhaid hysbysu teithwyr â nam ar eu golwg ar lafar am hyn.

## Cynnal a chadw'r system a'i defnyddio

Rhaid i'r system gael ei chynnal a'i chadw a'i defnyddio yn unol ag amodau trwyddedu tacsis/cerbydau hurio preifat.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Lawrlwytho data

Dim ond at y dibenion canlynol y caiff data eu lawrlwytho:

a) Mewn ymateb i gais mynediad data dilys o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, mewn perthynas â'r cerbyd/gyrrwr
(b) Mewn ymateb i Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun sy'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018
c) Pan fo cwyn wedi ei gwneud i'r Adran Drwyddedu ynghylch y cerbyd/gyrrwr ac na ellir datrys y gŵyn mewn unrhyw ddull arall.

> Os yw'ch awdurdod lleol wedi gorfodi CCTV ym mhob cerbyd, dylech ddarparu dolen i'ch polisi lawrlwytho.

## Cadw data

Dim ond am y cyfnodau canlynol y cedwir data a adalwyd gan yr awdurdod trwyddedu:

a) Achosion sy'n arwain at erlyniad 10 mlynedd o ddyddiad y treial
b) Rhybuddiad ffurfiol 3 blynedd o ddyddiad y rhybuddiad
c) Rhybudd ysgrifenedig neu ddim camau gweithredu ffurfiol 3 blynedd o ddyddiad y penderfyniad
d) Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun 6 mlynedd o ddyddiad y cais.

## Rheolydd data

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn diffinio rheolydd data fel y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

corff sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol, o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR), am bob mater sy'n ymwneud â defnyddio data personol.

Gellir cynnwys y paragraffau canlynol

### Os yw eich awdurdod lleol wedi ei gwneud yn orfodol i gael CCTV ym mhob cerbyd, defnyddiwch y testun hwn:

Mae [**mewnosod enw'r cyngor**] yn ei gwneud yn ofynnol i'w holl dacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig ddefnyddio CCTV. **[Mewnosod enw'r cyngor]** fydd y rheolydd data ar gyfer yr holl systemau CCTV yn ei gerbydau trwyddedig. Bydd gan yr awdurdod lleol reolydd data dynodedig wedi'i gofrestru gyda'r ICO a bydd y rheolydd data yn penderfynu sut y bydd mynediad at y data yn cael ei reoli a'i ddefnyddio yn unol â chanllawiau'r ICO.

### Os yw'r defnydd o CCTV mewn cerbydau yn parhau i fod yn wirfoddol yn eich awdurdod lleol, defnyddiwch y testun hwn:

Rhaid i CCTV gwirfoddol sydd wedi'i osod yn unrhyw un o gerbydau trwyddedig **[mewnosod enw'r cyngor]** gydymffurfio â'r polisi hwn. Ni fydd **[mewnosod enw'r cyngor]** yn cael ei enwi'n rheolydd data ar gyfer unrhyw CCTV sydd wedi'i osod yn wirfoddol yn ei gerbydau trwyddedig. Rhaid i'r gyrrwr/perchennog cerbyd neu berson/sefydliad arall sy'n rheoli'r data gael eu henwi'n rheolydd data a'i gofrestru gyda'r ICO. Bydd y rheolydd data yn penderfynu sut y bydd mynediad at y data yn cael ei reoli a'i ddefnyddio yn unol â chanllawiau'r ICO.

## Proseswyr data trydydd parti

Os defnyddir darparwr gwasanaeth i storio data CCTV o bell, bydd yn gweithredu fel "prosesydd data". Ystyr prosesydd data, mewn perthynas â data

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

personol, yw unrhyw berson (ac eithrio un o gyflogeion y rheolydd data) sy'n prosesu data ar ran y rheolydd data, unai drwy gwmwl neu drwy weinydd, mewn ymateb i gyfarwyddiadau penodol. Mae'r rheolydd data yn parhau i fod yn gwbl gyfrifol am weithredoedd y prosesydd data.

Rhaid i bob system CCTV mewn tacsis a cherbydau hurio preifat trwyddedig **[mewnosod enw'r cyngor]** gael ei gosod yn unol â'r polisi hwn.

# Atodiad A: CCTV cerbydau trwyddedig manyleb dechnegol a gofynion systemau

## 1.0 Gofynion technegol gweithredol

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 1.1 | System cyflwr solet 100% neu system y profwyd y gall wrthsefyll dirgrynu a sioc | Ni ddylai fod gan y system unrhyw ffan a dylai'r recordiad allu gwrthsefyll dirgrynu a sioc, h.y.: –<br>• SSD seiliedig ar Flash (gradd ddiwydiannol 100%) disg caled â system gwrthsefyll dirgrynu a sioc, system ysgrifennu ffeiliau hunanadfer a hunanwirio.<br>Ni fydd cardiau SD o fewn pen y camera yn dderbyniol |
| 1.2 | 8-36 Folt DC | Yn weithredol rhwng 8 a 36 Folt DC |
| 1.3 | Wedi'i diogelu rhag gwrthbolaredd | Rhaid diogelu'r system rhag gwrthfoltedd. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 1.4 | Atal siortio | Bydd y system wedi'i diogelu rhag siortio |
| 1.5 | Diogelu rhag gorfoltedd | Bydd y system wedi'i diogelu rhag cerhyntau byr â foltedd uchel sy'n debygol o ddigwydd yn system drydanol y cerbyd. |
| 1.6 | Gofynion o ran Cytunedd Electromagnetig Modurol | Dylai'r cyfarpar camera fod wedi'i UKCA-farcio neu wedi'i CE-farcio gyda chadarnhad gan wneuthurwr y cyfarpar nad yw'n ymwneud ag imiwnedd a'i fod yn addas i'w ddefnyddio mewn cerbydau modur. |
| 1.7 | Switsh gwrth-wneud y system wedi'i osod mewn man lle na ellir ei gyrraedd o rannau o'r cerbyd lle mae'r gyrrwr/teithiwr (hy yng nghist y cerbyd). Rhaid i'r switsh fod yn olau pan fydd yn cael ei roi "ymlaen". | Mae angen i'r system fod ar waith pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel cerbyd trwyddedig. Bydd y switsh gwrth-wneud yn golygu y gellir dadactifadu'r CCTV yn ystod yr adegau pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion preifat (ee defnydd domestig). Ni ddylai'r switsh sy'n dadactifadu'r system fod wedi'i osod yn nhu mewn y cerbyd lle mae'r gyrrwr/teithiwr (h. bydd cist y car yn addas) |
| 1.8 | Egwyddor byffer recordio y cyntaf i mewn/y cyntaf allan | Rhaid i'r system drosysgrifio yn awtomatig er mwyn recordio mewn cylch cyson |
| 1.9 | Cofnod mynediad | Rhaid i'r gosodwr cymeradwy a pherchennog y cerbyd trwyddedig gadw cofnod gwasanaeth, a'i gynnal. |
| 1.10 | Diogelwch a hyd ffeiliau cofnodi a'u glanhau'n | |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| | awtomatig | |
| 1.11 | Fformatau a chyfryngau delweddau | Rhaid i ddelweddau gael eu hamgryptio i isafswm o FIPS 140/2 |
| 1.12 | Diogelu delweddau pan fo toriad yn y cyflenwad trydan | Rhaid cadw delweddau os collir y cyflenwad trydan. Dylid osgoi defnyddio batri wrth gefn lle bo'n bosib. |
| 1.13 | Rhaid i'r uned weithio heb danio'r cerbyd. | Rhaid i'r Uned allu gweithio am o leiaf 30 munud heb drydan o'r system danio.<br><br>Rhaid i'r ddyfais fod wedi ei chysylltu â chyflenwad cyson a chyflenwad o'r system danio. |
| 1.14 | Caiff data delweddau a data sain eu recordio eu storio mewn uned ar wahân i ben y camera. | Ni fydd cardiau storio hunangynhwysol o fewn pen y camera yn dderbyniol. |
| 1.15 | Gallu GPS | Rhaid i'r system fod â gallu GPS. |
| 1.16 | Rhaid i'r system allu recordio amser sain sydd hefyd yn gallu cael ei gydamseru â'r delweddau sy'n cael eu recordio. | Os bydd yn cael ei actifadu, rhaid i'r sain recordio o fewn y ffeil fideo, nid mewn ffeil neu ffolder ar wahân. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 1.17 | Ni fydd y system yn recordio sain ac eithrio pan fydd y cyfleuster recordio sain wedi'i actifadu drwy ddefnyddio switsh sbardun/ panig | Dylai'r system allu dechrau recordio data sain drwy ddefnyddio botwm/switsh sbardun.<br><br>Rhaid i un botwm sbardun allu cael ei actifadu o sedd y gyrrwr. Ar ôl i'r sbardun gael ei actifadu, rhaid i'r system ddechrau recordio data sain. Bydd y system yn parhau i recordio sain nes i'r un sbardun gael ei ddefnyddio i ddadactifadu'r sain (hy gellid gwasgu sbardun/switsh botwm i ddechrau recordio sain, byddai gwasgu'r un sbardun/switsh eto yn diffodd y recordio sain).<br><br>Rhaid i'r ail fotwm/switsh sbardun allu cael ei actifadu gan y teithwyr o brif adran teithwyr y cerbyd, yn annibynnol oddi wrth fotwm/switsh sbardun y gyrrwr<br><br>Rhaid i'r ddau sbardun/switsh actifadu sain fod yn annibynnol ar ei gilydd. Mae hyn yn golygu mai dim ond drwy ddefnyddio'r un sbardun/switsh (sbardun y gyrrwr neu'r teithiwr) ag a ddefnyddiwyd i actifadu'r system recordio sain y gellir dadactifadu'r system recordio sain. |
| 1.18 | Rhaid i ddata sain a data delweddau gael eu storio gyda'i gilydd, nid mewn ffeiliau ar wahân, a rhaid eu gwarchod rhag mynediad diawdurdod a rhag i unrhyw un ymyrryd â hwy. | Wedi eu gwarchod drwy fynediad â chyfrinair |
| 1.19 | Rhaid gallu profi swyddogaeth sain y | |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| | system er mwyn ei gosod a'i harchwilio. | |
| 1.20 | Ni chaiff delweddau a gaiff eu recordio gan y system eu dangos yn gyson yn y cerbyd.. | Rhaid i'r monitor arddangos delweddau byw yn glir drwy edrych o amgylch yn unol â manylebau ICO, rhaid iddo beidio dangos delweddau yn gyson |
| 1.21 | Rhaid i'r system gynnwys dangosydd gweledol a fydd yn dangos yn glir pryd mae sain yn cael ei recordio. Rhaid i bob teithiwr yn y cerbyd allu gweld y dangosydd hwn. | Rhaid iddo fod ar ffurf dangosydd LED sy'n rhan o'r switsh actifadu sain neu LED o bell y gall teithwyr ei weld yn glir. |

## 2.0 Gofynion technegol o ran capasiti storio

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 2.1 | Y gallu i recordio am o leiaf 28 diwrnod (28 x 24 awr) | Rhaid i'r system gamera allu recordio a storio delweddau o faint HD1 (720/288) neu fwy am o leiaf ddau ddeg wyth diwrnod. |
| 2.2 | Rhaid i gamerâu fod â system cyferbyniad golau er mwyn i ddelweddau fod yn glir ym mhob math o olau | Bydd systemau yn darparu delweddau clir mewn haul cryf, cysgod, yn y tywyllwch ac mewn tywyllwch llwyr. Hefyd, pan geir golau ôl cryf hefyd fod angen cydrannau ychwanegol |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## 3.0 Gofynion technegol o ran pen y camera

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 3.1 | Dylid gosod y camera fel nad yw'n amharu ar weledd | Caiff y camera a holl gydrannau eraill y system eu gosod mewn ffordd nad yw'n amharu ar olwg y gyrrwr na'i allu i weld drychau neu, fel arall, weithredu'r cerbyd yn y ffordd arferol.<br><br>Ni ddylid ffitio’r camera a chydrannau mewn rhannau o’r cerbyd a allai ddifrodi neu rwystro bag aer rhag agor pe bai damwain. |
| 3.2 | System datgysylltu'r camera wedi'i diogelu | Bydd pen y camera wedi'i ddylunio i ddatgysylltu er mwyn ei gwneud yn hawdd i bersonél cynnal a chadw yn unig ei dynnu a rhoi un newydd yn ei le. |
| 3.3 | Offer arbennig i addasu/tynnu | Er mwyn atal ymyrraeth amhriodol, dim ond offer a gyflenwyd i osodwyr awdurdodedig a ddylai allu gwneud addasiadau neu dynnu rhannau o'r camera. |
| 3.4 | Maes gweledd i recordio delweddau'r holl deithwyr yn y cerbyd | Rhaid i lens neu safle’r camera allu cynnwys y gyrrwr a phob teithiwr yn y cerbyd ar y ddelwedd a gaiff ei recordio. Rhaid defnyddio lens na fydd yn creu effaith “powlen bysgod”. |
| 3.5 | Rhaid iddi allu cael ei defnyddio mewn cerbydau â phartisiwn (sgrin) | Rhaid i'r system gamera allu cael ei haddasu i ddarparu delweddau clir pan fydd sgrin/partisiwn wedi'i gosod yn y cerbyd. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio nifer o bennau camera. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 3.6 | Nifer o gamerâu | Bydd yr uned yn gallu cynnal hyd at 4 camera. Efallai y bydd angen pedwar camera i sicrhau cwmpas digonol mewn cerbydau mwy o faint a/neu rai cerbydau pwrpasol neu ddelweddau allanol |

## 4.0 Gofynion technegol: dyfais storio

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 4.1 | Yn gallu gwrthsefyll trawiadau a sioc | Bydd y recordydd yn gallu gwrthsefyll trawiadau, ddigon i wrthsefyll damwain car nodweddiadol neu ergyd gwrthrych trwm megis cês dillad. |
| 4.2 | Y rheolydd mewn man cuddiedig | Bydd yr uned storio wedi'i chuddio o'r golwg o du mewn cydran y teithiwr ac yn anhygyrch ac eithrio i bersonél awdurdodedig (e.e. yn y man storio bagiau). |
| 4.3 | Darpariaeth porth lawrlwytho | Bydd gan y recordydd borth cyfathrebu o fewn man storio’r caledwedd (cadi) ar gyfer lawrlwytho gan bersonél awdurdodedig. |
| 4.4 | Bydd porth lawrlwytho wedi'i osod mewn man hygyrch. | Bydd porth lawrlwytho'r recordydd wedi'i osod mewn man lle nad oes angen tynnu paneli a lle mae'n hygyrch i swyddogion awdurdodedig |
| 4.5 | Pan fydd angen porth lawrlwytho, rhaid i hyd y cebl fod yn 1 metr o leiaf . | Dylai'r porth lawrlwytho fod yn fetr o hyd o leiaf er mwyn hwyluso'r broses gysylltu. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 4.6 | Dylai'r recordydd fod yn sownd wrth y cerbyd | |
| 4.7 | Log i gofrestru pob mynediad gan ddefnyddiwr | |
| 4.8 | Log i gofrestru addasiadau i baramedrau'r system gamera | |
| 4.9 | Log i gofrestru pob sesiwn lawrlwytho delweddau | |
| 4.10 | Log i gofrestru allforio delweddau wedi'u lawrlwytho | |
| 4.11 | Log i gofrestru allforio clipiau wedi'u lawrlwytho | |
| 4.12 | Ffeil log wedi'i diogelu rhag mynediad heb awdurdod | |
| 4.13 | Stamp amser/dyddiad | Rhaid i bob delwedd wedi'i storio fod wedi'i stampio â'r amser a'r dyddiad. |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 4.14 | Stamp rhif adnabod cerbyd | Dylai fod gan bob delwedd wedi'i storio ddau faes adnabod cerbyd (VIN a rhif cofrestru'r cerbyd). |
| 4.15 | Stamp cod adnabod na ellir ei newid ar y rheolydd | Caiff pob delwedd wedi'i recordio ei stampio'n awtomatig â chod unigryw na ellir ei newid sy'n nodi'r rheolydd a ddefnyddiwyd i recordio'r ddelwedd |

# 5.0 Gofynion o ran cyfradd recordio delweddau fideo a sain

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 5.1 | Recordio delweddau fideo pan fydd y system wedi'i hactifadu (pan na fydd y system sain wedi'i hactifadu). | Bydd y system yn recordio delweddau ar gyfradd o bum delwedd ar hugain yr eiliad o leiaf. |
| 5.2 | Recordio delweddau fideo pan fydd y system sain wedi'i hactifadu. | Bydd y system yn recordio delweddau ar gyfradd o 25 o ddelweddau yr eiliad yn ystod cyfnodau pan fydd y system recordio sain wedi'i hactifadu |
| 5.3 | Pan fydd wedi'i hactifadu, rhaid i sain gael ei recordio mewn amser real ac ar yr un pryd ag y mae delweddau fideo yn cael eu recordio. | Pan fydd wedi'i hactifadu, rhaid i sain gael ei recordio mewn amser real ac ar yr un pryd ag y mae delweddau fideo yn cael eu recordio. |
| 5.4 | Bydd y system yn parhau i recordio delweddau (a sain pan fo'n gymwys) | Rhaid i'r system barhau i recordio delweddau (a sain pan fo'n gymwys) am 30 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| | pan fydd yr injan wedi'i diffodd. | munud ar ôl i'r injan/system danio neu'r switsh gwrth-wneud gael ei diffodd. |

## 6.0 Gofynion technegol o ran lawrlwytho

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 6.1 | Darparu'r feddalwedd, y ceblau, yr allweddi diogelwch angenrheidiol i'r rheolydd data. | Rhaid i'r rheolydd data gadw'r rhain ar gyfer cael mynediad. |
| 6.2 | Rhaid storio delweddau a lawrlwythir yn ddiogel | Bydd y rheolydd data, a data a gedwir gan yr awdurdod lleol yn cael eu cadw'n unol â'r UKGDPR a hysbysiad preifatrwydd **[mewnosod enw cyngor]**. |
| 6.3 | Caiff delweddau wedi'u lawrlwytho eu storio mewn fformat diogel | Bydd y rheolydd data, a data a gedwir gan yr awdurdod lleol yn cael eu cadw'n unol â'r UKGDPR a hysbysiad preifatrwydd **[mewnosod enw cyngor]**. |
| 6.4 | Dilysrwydd gwiriadwy delweddau | Bydd pob delwedd wedi'i dyfrnodi â rhif adnabod y cerbyd, ac amser a dyddiad, a bydd wedi'i diogelu rhag ymyrraeth. |
| 6.5 | Darparu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ynghylch cymorth technegol i adran drwyddedu [mewnosod enw'r cyngor] yn ôl yr angen. | Helpu i gael mynediad i'r system os caiff y cerbyd neu'r system ei (d)difrodi os bydd damwain o fewn amser rhesymol |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 6.6 | Gwaherddir lawrlwytho di-wifr | Bydd unrhyw galedwedd ddi-wifr wedi'i hanalluogi. |
| 6.7 | Hidlo'r delweddau penodol ar gyfer digwyddiadau ac amseroedd er mwyn nodi'r digwyddiad/ymholiad data yn fras. | Rhaid i’r feddalwedd chwarae’n ôl restru’r ffeiliau yn nhrefn dyddiad ac amser er mwyn gallu dod o hyd i’r ffeil angenrheidiol yn hwylus.<br><br>Ni ddylai’r amser a gymerir i lawrlwytho ffeiliau o’r fath fod yn hwy na 30 munud. |
| 6.8 | Yn cyd-fynd â Windows. | Unwaith y bydd wedi ei lawrlwytho a’i drosi |

## 7.0 Gofynion o ran gwybodaeth am y system

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 7.1 | Darparu taflen log gwasanaeth. | Bydd log gwasanaeth gan y gwneuthurwr/cyflenwr. Bydd y gwneuthurwr/cyflenwr hefyd yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl i'r gyrwyr gyda phob uned a anfonir. |
| 7.2 | Nodir y rhif cyfresol ar y log gwasanaeth | Bydd rhif cyfresol wedi'i nodi ar yr uned |
| 7.3 | Bydd y dyddiad gosod wedi'i nodi | Rhaid darparu tystysgrif gosod fydd yn nodi'r dyddiad gosod |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 7.4 | Eglurder y cyfarwyddiadau gweithredu | Darperir cyfarwyddiadau gweithredu clir a chryno ar gyfer y system, a fydd wedi'u hysgrifennu neu eu cyflwyno gan roi sylw priodol i wahanol lefelau o lythrennedd. |
| 7.5 | Caiff yr uned ei gosod gan asiantau awdurdodedig | Caiff yr uned ei gosod gan asiantau awdurdodedig y gwneuthurwr. |
| 7.6 | Darparu rhestr o asiantau awdurdodedig | Dim ond gwneuthurwr neu gyflenwr neu asiantau awdurdodedig neu osodwyr cymeradwy eraill i'r asiantaethau hynny gaiff osod y system. |
| 7.7 | Dogfennaeth | Rhaid i'r gwneuthurwr neu'r cyflenwr ddarparu cyfarwyddiadau clir a chryno wedi'u hargraffu/ysgrifennu. (Manylion am y ffordd y mae'r system yn gweithredu) |
| 7.8 | Diogelu delweddau | Rhaid i bob delwedd sy'n cael ei recordio gael ei diogelu gan ddefnyddio meddalwedd amgryptio sy'n cyrraedd safon bresennol FIPS 140-2 (lefel 2) neu safon gyfatebol neu sy'n rhagori ar y safon honno. |

## 8.0 Gofynion y system o ran cyfleuster archwilio cerbydau

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 8.1 | Darparu dangosydd statws/cyflwr y system | Bydd gan y gyrrwr ddangosydd sy'n dangos pryd y mae'r system yn weithredol a phryd nad yw'r system yn |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| | | gweithio. Bydd hyn yn cynnwys y ddelwedd a ddangosir i gadarnhau statws pob camera. |
| 8.2 | Y man lle mae y dangosydd statws/cyflwr y system wedi'i osod | Caiff y dangosyddion neu'r monitor eu gosod lle y gallant gael eu gweld yn hawdd. |
| 8.3 | Wedi'i dylunio/gosod fel y gellir ei phrofi fel rhan o'r prawf cydymffurfio (neu gan bersonau sy'n gweithredu ar ran [mewnosod enw awdurdod lleol] (ee archwilwyr cerbydau/swyddogion trwyddedu awdurdodedig) | Bydd y system wedi'i dylunio ac wedi'i gosod fel y gall y system gael ei phrofi'n hawdd fel rhan o wiriadau cydymffurfio cerbydau (ee monitor i ddangos delweddau'r camera) gweler manyleb 1.20. |

## 9.0 Gofynion cyffredinol o ran y system

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| 9.1 | Rhaid i'r system allu gwrthsefyll fandaliaeth ac ymyrraeth | Rhaid i holl rannau'r cydrannau fod yn fach, wedi eu cysylltu, wedi eu gosod yn sownd, ac yn ddigon ddisylw i leihau'r risg y bydd unrhyw un yn ymyrryd â hwy. |
| 9.2 | Bydd cadarnhad ysgrifenedig gan y cwmni neu'r cyflenwr sy'n gosod y CCTV yn cael ei ddarparu i'r awdurdod | Yn ogystal â phrawf ffurfiol ar bob agwedd ar y fanyleb gofynion hon, pan fydd y gwaith gosod wedi ei gwblhau, bydd tystysgrif ysgrifenedig/wedi ei hargraffu yn cael ei darparu i **[mewnosod enw'r cyngor]** er mwyn cadarnhau bod y system CCTV yn cydymffurfio |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| | lleol | â’r fanyleb hon. |
| 9.3 | Dibynadwyedd o dan amodau gweithredol ac amgylcheddol | Bydd y system yn gweithio mewn ffordd ddibynadwy a llawn o dan yr holl amodau gweithredol ac amgylcheddol a geir wrth weithredu tacsis a cherbydau hurio preifat |
| 9.4 | Rhaglenadwyedd paramedrau amseru delweddau | Bydd yn bosibl i'r amseriad a'r paramedrau gael eu newid heb orfod newid cydrannau. |
| 9.5 | Hyfforddiant, Cymorth Technegol a Chyfarpar | Rhaid i'r gwneuthurwr neu’r cyflenwr ddarparu cymorth technegol i’r rheolydd data |
| 9.6 | Meddalwedd a Chaledwedd | Bydd y gwneuthurwr neu’r cyflenwr yn rhoi cyflenwad o geblau a meddalwedd angenrheidiol i’r rheolydd data gael mynediad at y data yn ôl y gofyn. |
| 9.7. | Cytundeb rhwng gwneuthurwr neu gyflenwr y Camera a’r rheolydd data. | Cytundeb i alluogi’r rheolydd data i gael mynediad at y feddalwedd berthnasol. |
| 9.8 | Rhaid i'r holl gyfarpar gydymffurfio ag unrhyw ofynion deddfwriaethol mewn perthynas â Rheoliadau Adeiladu a Defnyddio Cerbydau | |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Cyf | Gofyniad | Manylion |
|---|---|---|
| | Modur | |

# Annecs B: amodau'r drwydded

## Amodau trwyddedu ychwanegol ar gyfer gyrwyr Tacsis/Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau pan fo system CCTV wedi'i gosod mewn cerbyd trwyddedig

**Bydd perchennog y cerbyd yn sicrhau'r canlynol:**

1. Ni chaiff unrhyw system CCTV ei gosod mewn cerbyd trwyddedig, oni bai bod y math o system yn cydymffurfio â’r manylebau a restrir yn Atodiad A gofynion polisi CCTV wedi'i chymeradwyo gan yr awdurdod trwyddedu. Ni chaiff y math o system, y lleoliad na nifer y camerâu ei amrywio heb roi gwybod i’r awdurdod trwyddedu ymlaen llaw.
2. Caiff y system CCTV ei chynnal a'i chadw a'i gwasanaethu'n briodol ac yn rheolaidd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr neu’r cyflenwr gan unigolyn cymwys addas. Caiff cofnodion ysgrifenedig o'r holl waith cynnal a chadw a gwasanaethu eu cadw gan y perchennog am o leiaf 12 mis. Darperir cofnodion ysgrifenedig o'r fath os bydd un o swyddogion awdurdodedig yr awdurdod trwyddedu neu Swyddog yr Heddlu yn gofyn amdanynt.
3. Rhaid i'r system CCTV fod yn gwbl weithredol pryd bynnag y bydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio i'w hurio neu am dâl. Os na fydd y system yn weithredol, ni ddylid defnyddio'r cerbyd i'w hurio nac am dâl nes y bydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

wedi'i thrwsio ac yn gwbl weithredol yn unol â’r manylebau yn Atodiad A.

4. Rhaid i'r system recordio a'r cof fod wedi'u storio'n ddiogel yn y cerbyd mewn man lle na all y cyhoedd gael gafael arnynt.
5. Ni ddylai'r unrhyw berson ymyrryd â'r system na'r ffilm sydd wedi'i recordio arni, ac eithrio fel y disgwylid i weithredu'r system yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr neu’r cyflenwr.
6. Dim ond swyddog awdurdodedig a all lawrlwytho'r delweddau a geir yn y ddyfais recordio.

### Amodau Trwyddedu Gyrrwr Tacsi/Cerbyd Hurio Preifat

1. Rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod y system CCTV yn weithredol cyn cychwyn ar weithgaredd tacsi neu gerbyd preifat pob dydd, rhaid i’r gyrrwr wirio’r monitor i sicrhau bod y ddelwedd yn glir ac nad oes gwall ar y ddyfais CCTV. Os na fydd y system yn weithredol, ni ddylid defnyddio'r cerbyd i'w hurio nac am dâl nes y bydd wedi'i thrwsio ac yn gwbl weithredol yn unol â’r manylebau a restrir yn Atodiad A, neu nes bod y ddyfais CCTV a’r arwyddion yn cael eu gwaredu o’r cerbyd gyda chaniatâd perchennog/perchnogion y cerbyd a bod [mewnosod enw cyngor] yn cael eu hysbysu ar unwaith (dim ond pan nad yw CCTV yn orfodol y mae hyn yn berthnasol).
2. Rhaid i'r system recordio sain gael ei hactifadu gan y gyrrwr unrhyw bryd y bydd y gyrrwr a’r teithiwr/teithwyr mewn anghydfod a bod y gyrrwr yn teimlo eu bod angen recordio sain oherwydd iaith neu ymddygiad y teithiwr/ teithwyr:
3. Ni ddylai'r gyrrwr ymyrryd â'r system na'r ffilm sydd wedi'i recordio arni (ac ni ddylai'r gyrrwr ganiatáu i unrhyw berson, nad oes ganddo ganiatâd penodol y cyflenwyr i wneud hynny, ymyrryd â'r system), ac eithrio fel y disgwylid i weithredu'r system neu wneud gwaith cynnal a chadw yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/tacsis-cherbydau-hurio-preifat-templed-polisi-cctv-i-awdurdodau-lleol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.